Beth yw

MESURYDDION CLYFAR

Y cwbl y mae arnoch angen ei wybod i reoli eich nwy a'ch trydan

severn wye

WALES&WEST UTILITIES

Mae mesuryddion clyfar yn rhoi'r wybodaeth yr ydych ei angen **i leihau gwastraff ynni** a'ch **helpu i arbed arian**

Beth yw Mesuryddion Clyfar?

Mesuryddion clyfar yw'r genhedlaeth newydd o fesuryddion nwy a thrydan. Mae'r sgrin yn eich cartref yn dangos faint o ynni a ddefnyddiwch wrth i chi ei ddefnyddio a faint rydych yn ei wario mewn punnoedd a cheiniogau.

Gall hyn ei wneud yn haws i chi weld lle'r ydych yn defnyddio llawer o ynni, a ble gallech wneud newidiadau er mwyn ei leihau, gan eich helpu i atal unrhyw wastraffu ynni.

Mae mesuryddion clyfar yn rhoi gwybod i'ch cyflenwr faint o ynni rydych yn ei ddefnyddio, felly nid rhaid i chi!

Sut mae mesuryddion clyfar yn fy helpu?

Mae gan fesuryddion clyfar sgrin: teclyn bach y gallwch ei osod yn unrhyw le yn eich cartref, fel y gallwch weld ar unwaith faint o ynni rydych yn ei ddefnyddio.

Gan fod y mesurydd yn gyrru'ch darlleniadau i'ch cyflenwr ynni yn awtomatig, nid oes rhagor o angen chwilota cypyrddau na phobl yn dod i'ch cartref i'w darllen nhw.

Pam ddylwn ddymuno gweld faint o ynni dwi'n ei ddefnyddio?

Mae mesuryddion clyfar yn ei gwneud yn haws i chi weld lle'r ydych yn defnyddio llawer o ynni, ac efallai y dymunech leihau hynny. Gall eich helpu i weld a ydych wedi gadael cyfarpar ymlaen trwy gamgymeriad, hefyd.

Ydyn nhw'n ddiogel?

Mae'r holl fesuryddion clyfar a ddefnyddir ym Mhrydain yn well na phob safon diogelwch y DU a'r UE.

Trosglwyddir eich data ynni ar rwydwaith diogel ac ni chedwir eich enw na'ch cyfeiriad yn unman.

A allaf newid cyflenwr?

Mae'r ail genhedlaeth o fesuryddion clyfar wedi'u rhyddhau nawr, sy'n golygu y bydd eich mesurydd yn gymwys ar gyfer pob cyflenwr ynni. Mae wastad yn werth holi eich cyflenwr newydd cyn i chi newid.

Pam mae mesuryddion clyfar yn dda ar gyfer Prydain Fawr?

Bydd mesuryddion clyfar yn trawsnewid sut ddefnyddiwn ynni fel cenedl ac yn helpu creu grid clyfar newydd a fydd yn fwy ynni-effeithlon.

Golyga hyn y bydd gwell dealltwriaeth o dreuliant ynni'r wlad, a chan hynny byddwn yn fwy galluog i gydbwyso'r cyflenwad ynni â'r galw, sy'n golygu llai o wastraff.

Trwy helpu pob aelwyd i arbed ynni, bydd mesuryddion clyfar o gymorth i'r blaned. Pe cai pob aelwyd ym Mhrydain Fawr fesurydd clyfar, mae dichon arbed digon o ynni i bŵeru pob cartref yn Swydd Gaerloyw a De Swydd Gaerloyw am 18 mis.

Sut allaf gael un?

Mae cael mesurydd clyfar yn ddigon hawdd, ac fe'u ceir heb dalu ychwaneg. Nid oes ond rhaid i chi gysylltu â'ch cyflenwr ynni a chofrestru eich diddordeb.

Mae ychydig bethau pwysig y bydd angen i chi eu paratoi cyn y gosod:

1. Cytuno amser a dyddiad â'ch cyflenwr ynni fel y gallwch fod gartref ar gyfer y gosod: ni fydd gosodwr byth yn galw heibio'n ddirybudd.
2. Sicrhewch y gwyddoch lle mae eich mesuryddion presennol ac y gall y gosodwr eu cyrraedd.
3. Dylai'r gosodwr ddangos i chi gerdyn adnabod dilys pan gyrhaeddo; ac onid yw'n gwneud hynny ar unwaith, gallwch ofyn am ei weld.
4. Cymer tua dwy awr, a diffoddir eich cyflenwad ynni am gyfnod byr.
5. Bydd y gosodwr yn gwirio diogelwch eich offer nwy fel rhan o'r gosod.
6. Ar ôl ei osod, bydd y gosodwr yn dangos i chi sut mae defnyddio eich sgrin cartref.

Am ragor o wybodaeth am fesuryddion clyfar, biliau ynni, treuliant neu gymorthdaliadau ac ariannu presennol, cysylltwch â thîm cynghori Severn Wye.

Am ystod lawn o gyngor, edrychwch ar ein gwefan.

0800 170 1600

severnwye.org.uk

energyadvice@severnwye.org.uk

severn wye

WALES&WEST UTILITIES

Mae Asiantaeth Ynni Severn Wye yn gwmni nid-er-elw (rhif cwmni 03830608) ac yn elusen (rhif elusen: 1083812). Rydym yn cynnal rhaglenni cyngor ynni ledled Swydd Gaerloyw, De Swydd Gaerloyw, Swydd Henffordd a Phowys, gan helpu aelwydydd i leihau eu costau ynni a gwneud eu cartrefi'n fwy ynni-effeithlon.

Hawlfraint [H] 2024 Severn Wye Energy Agency